

# Polisi Diogelu First Give

Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL): Louisa Searle

## First Give

Ar hyn o bryd mae First Give yn gweithio mewn dros 190 o ysgolion gyda thua 30,000 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn darparu cynllun gwaith ag adnoddau llawn i'w gyflwyno gan athrawon ein hysgolion partner a hefyd yn darparu Gwasanaeth cyflwyno, gweithdai a rowndiau terfynol mewn ysgolion.

## Datganiad o fwriad

Oherwydd natur ein gwaith, gall plant a phobl ifanc weithiau ddatgelu gwybodaeth amdanynt eu hunain na fyddent wedi'i wneud fel arfer. Gallai hyn ddigwydd mewn Gwasanaeth cyflwyno, Gweithdy Sgiliau Cyflwyno neu mewn Rownd Derfynol Ysgol. Yn aml, mae staff First Give mewn lle unigryw i allu mynd i'r afael â phryderon a materion yn ymwneud â diogelu. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant neu bobl ifanc yn gwybod am beth i edrych a sut i ymateb.

Mae First Give wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd sy'n amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed.

Diben y polisi hwn yw:

- Amddiffyn pob plentyn a pherson ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglen First Give
- Sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn gwbl ymwybodol o'u rhwymedigaethau o ran diogelu a'u bod yn hyderus i ymateb yn briodol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, gan gynnwys yr holl staff llawn amser, hwyluswyr llawrydd, uwch reolwyr, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar ran First Give.

## Deddfwriaeth a chanllawiau statudol

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar ganllawiau statudol yr Adran Addysg, Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, a'r Llawlyfr Llywodraethu.

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rhan 3 o'r atodlen i Reoliadau Addysg (Safonau Ysgolion Annibynnol) 2014, sy'n gosod dyletswydd ar academïau ac ysgolion annibynnol i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol
- Deddf Plant 1989 (a diwygiad 2004), sy'n darparu fframwaith ar gyfer gofalu am blant a'u hamddiffyn
- Adran 5B(11) o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003, fel y'i mewnosodwyd gan adran 74 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, sy'n gosod dyletswydd statudol ar athrawon i adrodd i'r heddlu lle maent yn darganfod ei bod yn ymddangos bod anffurfio organau cenhedlu benywod (enwaedu benywod) wedi'i wneud ar ferch o dan 18 oed
- Canllawiau statudol ar enwaedu benywod, sy'n nodi cyfrifoldebau o ran diogelu a chefnogi merched y mae enwaedu benywod yn effeithio arnynt
- Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, sy'n amlinellu pryd y gall pobl sydd â cholffarnau troseddol weithio gyda phlant
- Atodlen 4 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006, sy'n diffinio beth yw 'gweithgarwch rheoleiddiedig' mewn perthynas â phlant

- Canllawiau statudol ar ddyletswydd Atal, sy'n esbonio dyletswyddau ysgolion o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 mewn perthynas ag amddiffyn pobl rhag y risg o radicaleiddio ac eithafiaeth
- Rheoliadau Gofal Plant (Anghymhwys) 2009 a Deddf Gofal Plant 2006, sy'n nodi pwy sydd wedi'i anghymhwysu rhag gweithio gyda phlant

## Diffiniadau o eirfa allweddol

Mae diogelu a hyrwyddo lles plant yn golygu:

- Amddiffyn plant rhag camdriniaeth
- Atal amhariad ar iechyd neu ddatblygiad plant
- Sicrhau bod plant yn cael eu magu mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol
- Cymryd camau i alluogi pob plentyn i gael y canlyniadau gorau

**Mae amddiffyn plant** yn rhan o'r diffiniad hwn ac mae'n cyfeirio at weithgareddau a wneir i atal plant rhag dioddef, neu fod yn debygol o ddioddef, niwed sylweddol.

**Mae camdriniaeth** yn fath o gam-drin plentyn, a gall olygu achosi niwed neu fethu â gweithredu i atal niwed. Mae Atodiad 1 yn esbonio'r gwahanol fathau o gam-drin.

**Mae esgeulustod** yn fath o gamdriniaeth ac mae'n golygu methiant parhaus i fodloni gofynion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at nam difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Mae Atodiad 1 yn diffinio esgeulustod yn fanylach.

Mae plant yn cynnwys pawb dan 18 oed.

At ddibenion y polisi hwn, mae 'staff' neu 'staff First Give' yn cyfeirio at y rhai a gyflogir gan First Give neu sy'n cynrychioli First Give (sy'n golygu gweithwyr llawn amser, parhaol, hwyluswyr hunangyflogedig rhan-amser, contractwyr, ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr. Mae 'athrawon' neu 'staff ysgol' yn cyfeirio at y rhai a gyflogir gan neu sy'n cynrychioli ein hysgolion partner.

## Rolau a chyfrifoldebau

Mae diogelu ac amddiffyn plant yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr yn yr ysgol ac mae'n gyson â gweithdrefnau ein ALI a'n Bwrdd Lleol Diogelu Plant (gweithdrefnau'r BLIDP). Mae ein polisi a'n gweithdrefnau hefyd yn berthnasol i weithgareddau estynedig yn yr ysgol ac oddi ar y safle.

### Pob aelod o staff

Bydd yr holl staff yn ymwybodol o'r canlynol:

- Ein systemau sy'n cefnogi diogelu, gan gynnwys y staff, polisi ymddygiad a rôl yr arweinydd diogelu dynodedig (DSL)
- Y broses cymorth cynnar (a elwir weithiau'n fframwaith asesu cyffredin) a'u rôl o fewn y broses honno, gan gynnwys canfod problemau sy'n dod i'r amlwg, cysylltu gyda'r Arweinydd Diogelu Dynodedig, a rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill i gefnogi'r gwaith o ganfod ac asesu'n gynnar
- Beth i'w wneud os yw'n nodi mater diogelu neu os bydd plentyn yn dweud wrtho ef neu hi ei fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, gan gynnwys materion penodol fel enwaedu benywod, a sut i gynnal lefel briodol o gyfrinachedd wrth gysylltu â gweithwyr proffesiynol perthnasol
- Arwyddion gwahanol fathau o gam-drin ac esgeuluso, yn ogystal â materion diogelu penodol, megis cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, enwaedu benywod a radicaleiddio

## Gweithdrefnau

- Mae First Give yn penodi Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) sydd â chyfrifoldeb cyffredinol o ddydd i ddydd am ein Polisi Diogelu. Ar hyn o bryd, Louisa Searle, Cyfarwyddwr First Give, yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig. Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn cwblhau hyfforddiant diogelu plant yn rheolaidd bob dwy flynedd ac yn cael amser ac adnoddau i allu gwneud hyn.
- Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn cymryd rhan mewn hyfforddiant Recriwtio mwy Diogel unwaith bob dwy flynedd ac yn adrodd yr hyn a ddysgwyd yn ôl i aelodau eraill o'r tîm ac yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio First Give yn dilyn arfer gorau.
- Mae gan First Give ymddiriedolwr dynodedig sydd â chyfrifoldeb cyffredinol ar lefel bwrdd am ein Polisi Diogelu. Rebecca Cramer yw'r person yma ar hyn o bryd.
- Mae gan First Give Broctocol Ymddygiad, Iaith a Gwisg cyfredol (Atodiad 3) ar gyfer pob hwylusydd sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Mae First Give wedi mabwysiadu dull cyfathrebu di-gyffwrdd. Gweler Atodiad 3: Protocol Ymddygiad, Iaith a Gwisg i gael rhagor o fanylion.
- Bydd pob aelod o staff First Give yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a 2 eirida fel rhan o'r broses recriwtio. Bydd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal bob 3 blynedd.
- Bydd yr holl staff First Give yn derbyn hyfforddiant priodol i sicrhau eu bod yn hyderus wrth adnabod ac ymateb i faterion neu bryderon yn ymwneud â diogelu. Bydd hyn yn digwydd yng nghyd-destun diwrnodau hyfforddi hwyluswyr (dan arweiniad y tîm canolog) a hyfforddiant allanol a gynigir i'r tîm canolog (er enghraifft hyfforddiant NSPCC).
- Bydd pob aelod o staff First Give yn cael 2 gopi o'r Polisi hwn y gofynnir iddynt eu darllen. Yna gofynnir iddynt lofnodi'r ddau gopi gan gydnabod eu bod wedi gweld, darllen a deall y polisi. Bydd un copi wedi'i lofnodi yn cael ei gadw gan First Give drwy gydol eu cyswllt â'r elusen.
- Caiff y polisi hwn ei adolygu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn flynyddol a/neu bryd bynnag y bydd newid sylweddol mewn deddfwriaeth.
- Mae pawb sy'n gweithio gyda First Give yn gyfrifol am roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch cydweithiwr (naill ai o First Give, sefydliad partner neu ysgol)
- Bydd holl staff a gwirfoddolwyr First Give yn derbyn hyfforddiant er mwyn gallu
  - Cydnabod materion diogelu
  - Ymateb yn briodol
  - Cofnodi pryderon neu faterion yn gyfrinachol ac yn briodol
  - Cyfeirio materion diogelu at y personau priodol (Arweinydd Diogelu Dynodedig yr Ysgol a First Give)

## Cyfrinachedd

- Mae First Give yn cydnabod bod yr holl faterion sy'n ymwneud ag Amddiffyn a Diogelu Plant yn gyfrinachol.
- Ni fydd Arweinydd Diogelu Dynodedig First Give yn datgelu pryderon neu faterion diogelu heblaw ar sail gwybodaeth angenrheidiol

## Ffotograffiaeth a chaniatâd

Wrth ddathlu cyflawniadau myfyrwyr a hyrwyddo First Give drwy sianeli ar-lein (y wefan/llwyfannau cyfryngau cymdeithasol), mae'n bosibl y bydd staff First Give un tynnu lluniau o blant a phobl ifanc.

- Pan fydd First Give yn tynnu lluniau neu ffilm o fyfyrwyr am unrhyw reswm, gofynnir i'r Athro Arweiniol gasglu caniatâd rhieni a chaniatâd myfyrwyr (ar gyfer pobl ifanc dros 13 oed) gan ddefnyddio'r ffurflen dempled yn Atodiad 4.
- Pan fo First Give yn defnyddio lluniau neu ffilm, ni fyddwn yn eu cyhoeddi gydag enw llawn neu rannol y myfyriwr sydd yn y llun.
- Pan fydd First Give yn cyflogi ffotograffydd proffesiynol, byddant yn cael eu briffio'n llawn a bydd aelod o staff First Give yn dod gyda nhw drwy gydol eu hymweliad â'r ysgol/digwyddiad.

- Ni fydd First Give yn defnyddio dyfeisiau personol i dynnu lluniau o fyfyrwyr.
- Bydd ffotograffau sy'n cael eu storio gan First Give yn cael eu storio'n ddiogel.

## Beth i'w wneud pan fydd plentyn yn datgelu mater diogelu

Os bydd plentyn yn datgelu mater diogelu yn ystod sesiwn (naill ai mewn sgwrs un-i-un neu fel rhan o'r ymarferion grŵp):

- Cadwch yn ddigynnwrf.
- Gwrandewch ar yr hyn maen nhw'n ei ddweud yn ofalus.
- Peidiwch â gofyn cwestiynau treiddgar na gofyn am fanylion ychwanegol.
- Dywedwch wrth y plentyn ei fod wedi gwneud y peth iawn yn rhannu'r peth ac nad oes bai arno ef neu hi. Gadewch iddo ef/hi wybod eich bod yn deall ei bod hi'n anodd siarad am y math yma o bethau. Diolchwch i'r plentyn.
- Peidiwch ag addo cadw'r datgeliad yn gyfrinachol.
- Hysbyswch Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol a'r athro cyswllt cyn gynted â phosibl. Bydd gweithdrefn ddiogelu'r ysgol yn dilyn.
- Rhannwch eich pryder gydag Arweinydd Diogelu Dynodedig First Give cyn gynted â phosibl.
- Cofnodwch y datgeliad yng ngeiriau'r plentyn ei hun (cyn belled ag y bo modd) a'r hyn a ddywedwyd gennych chi mewn ymateb ar ôl i'r plentyn adael yr ystafell gan ddefnyddio'r templed yn Atodiad 2. E-bostiwch eich adroddiad at Arweinydd Diogelu Dynodedig First Give.
- Os oes posibilrwydd o niwed neu berygl uniongyrchol, cysylltwch gyda'r gwasanaethau brys, ac yna dilynwch y camau uchod.

## Os bydd plentyn mewn perygl uniongyrchol

Gwnewch atgyfeiriad i wasanaethau gofal cymdeithasol plant a/neu'r heddlu ar unwaith os mae plentyn mewn perygl uniongyrchol neu mewn perygl o gael niwed. Gall unrhyw un wneud atgyfeiriad.

Dywedwch wrth yr Arweinydd Diogelu Dynodedig cyn gynted â phosibl os byddwch yn gwneud atgyfeiriad yn uniongyrchol.

I adrodd am gam-drin plant i'ch cyngor lleol, ewch i:

<https://www.gov.uk/report-child-abuse-to-local-council>

## Os darganfyddwch fod enwaedu benywod wedi digwydd neu os yw disgybl mewn perygl o enwaedu benywod

Mae dogfen Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg yr Adran Addysg yn esbonio bod enwaedu benywod yn cynnwys "pob gweithdrefn sy'n cynnwys gwaredu organau rhywiol allanol menywod yn rhannol neu'n gyfan gwbl, neu anaf arall i organau rhywiol menywod".

Mae enwaedu benywod yn anghyfreithlon yn y DU ac yn fath o gam-drin plant gyda chanlyniadau hirdymor, niweidiol. Fe'i gelwir hefyd yn 'dorri organau rhywiol menywod', 'enwaedu' neu 'dderbyniad'.

Mae dangosyddion posibl sy'n nodi bod disgybl eisoes wedi bod yn destun enwaedu benywod, a ffactorau sy'n awgrymu y gallai disgybl fod mewn perygl, yn cael eu hamlinellu yn Atodiad 1.

**Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n darganfod ei bod yn ymddangos bod gweithred enwaedu benywod wedi'i gyflawni ar ddisgybl o dan 18 oed roi gwybod i'r heddlu am hyn ar unwaith, yn bersonol.** Mae hon yn ddyletswydd statudol, a bydd staff yn wynebu cosbau disgyblu am fethu â'i bodloni.

Nid yw'r ddyletswydd uchod yn berthnasol mewn achosion lle yr amheuir bod disgybl mewn perygl o enwaedu benywod neu le yr amheuir enwaedu benywod ond nad yw'n hysbys ei fod wedi'i gyflawni. Ni ddylai staff archwilio disgyblion.

**Rhaid i unrhyw aelod o staff** sy'n amau bod disgybl sy'n 18 oed neu'n hŷn mewn perygl o enwaedu benywod neu'n ymddangos ei bod wedi dioddef enwaedu benywod, siarad gyda'r Arweinydd Diogelu Dynodedig a dilyn ein gweithdrefnau diogelu. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â'r Gwasanaethau Plant ar 020 8583 6600 a ffonio'r llinell gymorth enwaedu benywod ar 0800 028 3550 neu e-bostio [fgmhelp@nspcc.org.uk](mailto:fgmhelp@nspcc.org.uk)

## Beth i'w wneud pan fyddwch yn canfod mater diogelu posibl

Os byddwch chi'n gweld dangosyddion a allai awgrymu mater diogelu:

- Hysbysu Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol a'r athro cyswllt cyn gynted â phosibl. Bydd gweithdrefn ddiogelu'r ysgol yn dilyn.
- Rhannwch eich pryder gydag Arweinydd Diogelu Dynodedig First Give cyn gynted â phosibl.
- Cofnodwch unrhyw ddatgeliad yng ngeiriau'r plentyn ei hun (os yw'n berthnasol) a/neu eich arsylwadau (e.e. cleisiau) ac unrhyw beth a ddywedwyd gennych ar ôl i'r plentyn adael gan ddefnyddio'r ffurflen dempled yn Atodiad 2. E-bostiwch eich adroddiad at Arweinydd Diogelu Dynodedig First Give.
- Os oes posibilrwydd o niwed neu berygl uniongyrchol, cysylltwch gyda'r gwasanaethau brys, ac yna dilynwch y camau uchod.

**Sylwch fod y mwyafrif llethol o ddatgeliadau'n cael eu gwneud heb eiriau.**

## Beth fydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn ei wneud

Yn dilyn atgyfeiriad o bryder yn ymwneud â diogelu, bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn:

- Storio cofnodion ar y sefyllfa mewn man diogel.
- Cyfeirio'r achos at Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol berthnasol.
- Gofyn i Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol berthnasol i gadarnhau derbyn yr atgyfeiriad.

## Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL):

Enw	E-bost	Rhif Ffôn
Louisa Searle	<a href="mailto:louisa@firstgive.co.uk">louisa@firstgive.co.uk</a>	0207 443 5169

## Cwynion a phryderon am arferion diogelu First Give

### Cwynion yn erbyn staff

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn staff sy'n debygol o fod angen ymchwiliad amddiffyn plant yn unol â'n gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn staff (gweler atodiad 3).

### Chwythu'r Chwiban

Rydym yn cydnabod na ellir disgwyl i blant godi pryderon mewn amgylchedd lle mae staff yn methu â gwneud hynny. Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'u dyletswydd i godi pryderon, pan fyddant yn codi, ynglŷn ag agweddau a gweithredoedd cydweithwyr.

Cyfeiriwch at bolisi First Give ar chwythu'r chwiban (Atodiad X ac yn y Llawlyfr Staff).

## Cadw cofnodion

Rhaid cofnodi'r holl bryderon diogelu, trafodaethau, penderfyniadau a wnaed a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, yn ysgrifenedig. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch a ddylid cofnodi rhywbeth, trafodwch y mater gyda'r Arweinydd Diogelu Dynodedig.

## Manylion y Polisi

Diweddarwyd y polisi hwn ddiwethaf ym mis Chwefror 2020. Caiff ei adolygu'n flynyddol.

## Datganiad

Yr wyf i, ..... (ENW MEWN LLYTHRENNAU BRAS) yn cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y polisi hwn ac y byddaf yn cydymffurfio ag ef.

Llofnod.....

Dyddiad.....

# Atodiad 1:

## Cydnabod Cam-driniaeth

Mae First Give yn dilyn diffiniad yr NSPCC o gam-drin:

"Unrhyw weithred gan berson arall – oedolyn neu blentyn – sy'n achosi niwed sylweddol i blentyn. Gall fod yn gorfforol, yn rhywiol neu'n emosiynol, ond yn yr un modd, gall hefyd ymwneud â diffyg cariad, gofal a sylw."

Y 4 prif fath o gam-drin yw:

1. **Cam-drin Corfforol:** Anafu plentyn yn fwiadol gan achosi anafiadau fel cleisiau, torri esgyrn, llosgiadau neu grafiadau.
2. **Cam-drin Emosiynol:** Cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus. Weithiau fe'i gelwir yn gam-drin seicolegol a gall niweidio iechyd a datblygiad emosiynol plentyn yn ddifrifol.
3. **Esgeulustod:** Methiant parhaus i fodloni gofynion sylfaenol plentyn
4. **Cam-drin Rhywiol:** Mae plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol pan gaiff ei orfodi neu ei berswadio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Does dim rhaid i hyn fod yn gyswllt corfforol a gall ddigwydd ar-lein

Mae'r polisi hwn hefyd yn cynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac enwaedu benywod.

Ceir canllawiau manylach ar fathau o gam-drin ar wefan yr NSPCC:

<https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/>

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-drin posibl mewn plant. Isod ceir rhestr o arwyddion posibl. Mae'n hanfodol nodi mai dangosyddion yn unig yw'r rhain o gam-drin posibl. Gall fod rhesymau eraill, diniwed, dros yr arwyddion a/neu'r ymddygiad hyn. Fodd bynnag, bydd rhain yn rhoi canllaw i helpu i asesu a yw cam-drin un math neu'r llall yn eglurhad posibl dros ymddygiad plentyn neu oedolyn.

## Cam-drin corfforol

Mae arwyddion corfforol yn cynnwys:

- Anafiadau heb esboniad
- Anafiadau sy'n anghyson â'r esboniad
- Anafiadau sy'n adlewyrchu'r eitem sy'n cael ei defnyddio e.e. haearn smwddio
- Cleisio, yn enwedig ar ochr uchaf y fraich, yr ysgwyddau, y gwddf neu flaen y bysedd
- Llosgiadau/sgaldiadau, yn enwedig o sigarét
- Marciau brathiad dynol
- Torri esgyrn, yn enwedig toriadau dirdro
- Chwydd a methu â defnyddio'r coesau neu freichiau yn y ffordd arferol
- Anaf difrifol gyda diffyg esboniad neu esboniad anghyson
- Anafiadau heb eu trin

Mae arwyddion seicolegol/emosiynol yn cynnwys:

- Anarferol o ofnus gydag oedolion
- Cydymffurfio i raddau annaturiol gyda rhieni
- Gwrthod trafod anafiadau/ofn cymorth meddygol
- Tynnu'n ôl o gyswllt corfforol
- Ymddygiad ymosodol tuag at eraill
- Gwisgo dillad i orchuddio anafiadau

Salwch ffug drwy ddirprwy

- Salwch seiciatrig yw hwn, lle mae rhiant neu ofalwr yn fwriadol yn achosi niwed i blentyn, mam y plentyn fel arfer. Mae'r plentyn fel arfer wedi cael salwch difrifol wirioneddol ym mlwyddyn gyntaf bywyd ac mae dibyniaeth ar sylw meddygol wedi datblygu yn y fam. Mae'n anodd iawn gwneud diagnosis/canfod tystiolaeth.

## Cam-drin emosiynol

Y disgrifiad clasurol o gam-drin emosiynol yw dull rhianta "oeraidd a beirniadol".

Mae'r arwyddion yn cynnwys:

- Oediad corfforol, meddyliol ac emosiynol
- Derbyn cosbau, sy'n ymddangos yn ormodol
- Gor ymateb i gamgymeriadau
- Hunan-fychanu parhaus
- Anhwylderau lleferydd sydyn
- Ofn sefyllfaoedd newydd
- Ymddygiad niwrotig (fel siglo, troelli'r gwallt, sugno bawd)
- Hunan-niweidio
- Goddefedd eithafol neu ymddygiad ymosodol
- Camddefnyddio cyffuriau/sylweddau
- Rhedeg i ffwrdd
- Bwlio/Ymddygiad Ymosodol
- Ymddygiad sy'n cydymffurfio'r tu hwnt i'r angen
- Gor-fwyta neu ddiffyg awydd bwyd
- Ymddygiad glynol
- Ofnus/tynnu'n ôl
- Anhwylderau cysgu

## Esgeulustod

Mae arwyddion corfforol yn cynnwys:

- Wedi blino/di-ffrwt
- Diffyg hylendid personol
- Dillad anniben
- Nychdod, bola chwyddedig, byr o ran taldra
- Lliw croen a lliw gwallt dwl
- Problemau meddygol heb eu trin
- Methu â ffynnu heb reswm meddygol

Mae arwyddion seicolegol/emosiynol yn cynnwys:

- Eisiau bwyd yn gyson
- Blinder cyson
- Diffyg prydlondeb/presenoldeb yn yr ysgol
- Tueddiadau dinistriol
- Diffyg hunan barch
- Ymddygiad niwrotig
- Dim perthynas gymdeithasol
- Rhedeg i ffwrdd
- Dwyn/fforio direswm
- Nifer o ddamweiniau/anafiadau damweiniol



## Cam-drin rhywiol

Mae arwyddion corfforol yn cynnwys:

- Niwed i'r organau rhyw, anws neu geg
- Clefyd a drosglwyddir yn rhywiol
- Beichiogrwydd annisgwyl, yn enwedig mewn merched ifanc iawn
- Dolur i organau rhywiol, anws neu geg
- Poenau yn yr ystumog yn aml
- Colli pwysau
- Magu pwysau
- Heintiau llwybr wrinol rheolaidd heb esboniad, gollyngiadau neu boen yn y bol
- Rhoddion/arian heb esboniad

Mae arwyddion seicolegol/emosiynol yn cynnwys:

- Gwybodaeth rhywiol amhriodol ar gyfer oedran y plentyn
- Ymddygiad rhywiol ymysg plant ifanc
- Ymddygiad rhywiol pryfoclyd/anfoesoldeb
- Awgrymu gweithgarwch rhywiol
- Newidiadau sydyn mewn personoliaeth
- Diffyg canolbwyntio, aflonyddwch
- Tynnu'n ôl o sefyllfaoedd cymdeithasol
- Ymddygiad sy'n cydymffurfio'r tu hwnt i'r angen
- Diffyg ymddiriedaeth mewn oedolion arwyddocaol
- Ymddygiad atchweliadol, dechrau gwlychu ei hunan – dydd neu nos
- Ymdrechion hunanladdiad, hunan-anffurfio, hunan-ffieiddio
- Anhwylderau bwyta

Nid yw'r rhestr hon o ddangosyddion cam-drin posibl gyflawn, a bwriedir y rhestr fel canllaw yn unig i'ch cynorthwyo. Yn ogystal, ni ddylid cymryd bod ymddangosiad y symptomau hyn neu symptomau eraill yn brawf bod cam-drin yn digwydd.

## Camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE)

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) hefyd yn gam-drin rhywiol; mae'n golygu bod plant a phobl ifanc yn derbyn rhywbeth, er enghraifft llety, cyffuriau, rhoddion neu anwyldeb, o ganlyniad i berfformio gweithgareddau rhywiol, neu gael eraill i gyflawni gweithgareddau rhywiol arnynt. Gallai fod ar ffurf meithrin perthynas gyda phlant, e.e. cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol neu bostio delweddau rhywiol ohonynt eu hunain ar y rhyngwrwd. Gall cam-fanteisio rhywiol fod ar sawl ffurf yn amrywio o'r berthynas 'gydsyniol' sy'n ymddangos yn 'gydsyniol' lle mae rhyw yn cael ei gyfnewid am anwyldeb neu roddion, i droseddau cyfundrefnol difrifol gan gangiau a grwpiau. Yr hyn sy'n nodi camfanteisio yw anghydbwysedd pŵer yn y berthynas. Mae'r cyflawnwr bob amser yn dal rhyw fath o bŵer dros y dioddefwr sy'n cynyddu wrth i'r berthynas gam-fanteisiol ddatblygu. Mae camfanteisio rhywiol yn golygu gwahanol raddau o orfodi, bygwth neu ddenu, gan gynnwys pwysau difodyn gan gyfoedion i gael rhyw, bwlio rhywiol gan gynnwys seiberfwlio a meithrin perthynas amhriodol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod nad yw rhai pobl ifanc sy'n cael eu camfanteisio'n rhywiol yn arddangos unrhyw arwyddion allanol o'r cam-drin hwn.

Oherwydd natur y dulliau a ddefnyddir gan eu camdrinwyr i feithrin perthynas, mae'n gyffredin iawn i blant a phobl ifanc sy'n cael eu camfanteisio'n rhywiol beidio â chydabod eu bod yn cael eu cam-drin. Dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol y gallai pobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc 17 a 18 oed, gredu eu bod yn gweithredu'n wirfoddol ac y bydd angen i'r ymarferwyr weithio gyda nhw er mwyn iddynt gydnabod eu bod yn cael eu camfanteisio'n rhywiol.

**Gall dangosyddion camfanteisio rhywiol gynnwys plentyn yn:**

- Ymddangos gyda rhoddion heb esboniad neu eiddo newydd
- Cysylltu â phobl ifanc eraill sy'n ymwneud â cham-fanteisio
- Cael cariadon hŷn
- Dioddef o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol neu feichiogi
- Arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol
- Dioddef o newidiadau mewn lles emosiynol
- Camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol
- Mynd ar goll am gyfnodau o amser, neu ddod adref yn hwyr yn rheolaidd
- Colli ysgol neu addysg yn rheolaidd, neu beidio â chymryd rhan mewn addysg

## 1.1 Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (enwaedu benywod)

Gweithdrefn ddiwylliannol (nid crefyddol) lle caiff rhannau o organau rhywiol benywaidd eu gwaredu – y cyfeirir atynt hefyd fel enwaedu benywod. Fel arfer, mae hyn yn digwydd i ferched cyn-glasoed, sydd naill ai'n cael eu cludo dramor i gael triniaeth, neu “ymarferwyr” yn teithio i'r DU. Ni ddefnyddir anaesthetig nag offer di-haint. Ymhlith y cymhlethdodau mae haint difrifol, septisemia, nifer o broblemau gynaecelegol ac mewn rhai achosion, marwolaeth.

Mae dyletswydd adrodd orfodol enwaedu benywod yn ddyletswydd gyfreithiol y darperir ar ei gyfer yn Neddf Enwaedu Benywod 2003 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015). Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ac athrawon a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr gyflwyno adroddiad i'r heddlu lle maent, yn ystod eu dyletswyddau proffesiynol, naill ai:

- yn cael eu hysbysu gan ferch o dan 18 oed bod gweithred o enwaedu benywod wedi'i gyflawni arni; Neu
- arsylwi ar arwyddion corfforol sy'n ymddangos fel pe baent yn awgrymu bod gweithred enwaedu benywod wedi'i gyflawni ar ferch o dan 18 oed ac nad oes ganddynt unrhyw reswm i gredu bod y weithred yn angenrheidiol ar gyfer iechyd corfforol neu feddyliol y ferch nac at ddibenion sy'n gysylltiedig â genedigaeth.

At ddibenion y ddyletswydd, yr oedran perthnasol yw oedran y ferch ar adeg datgelu/adnabod enwaedu benywod (h.y. nid yw'n berthnasol pan fo menyw 18 oed neu drosodd yn datgelu ei bod wedi bod yn destun enwaedu benywod pan oedd hi o dan 18 oed).

Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn sicrhau bod staff yn cael mynediad at hyfforddiant priodol i'w galluogi i fod yn effro i blant y mae enwaedu benywod yn effeithio arnynt neu sydd mewn perygl o ddioddef enwaedu benywod.

Mae Adran 1.2 o'r polisi hwn yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn os bydd aelod o staff yn darganfod ei bod yn ymddangos bod gweithred enwaedu benywod wedi'i gyflawni neu'n amau bod disgybl mewn perygl o fod yn destun enwaedu benywod.

Mae'r dangosyddion fod enwaedu benywod eisoes wedi digwydd yn cynnwys:

- Disgybl yn cyfaddef i weithiwr proffesiynol bod enwaedu benywod wedi digwydd
- Mam/aelod o'r teulu yn datgelu bod enwaedu benywod wedi digwydd

- Teulu/disgybl sydd eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â materion diogelu eraill
- **Merch yn:**
  - Cael anhawster cerdded, eistedd neu sefyll, neu edrych yn anghyfforddus
  - Ei chael hi'n anodd eistedd yn llonydd am gyfnodau hir (lle nad oedd hyn yn broblem o'r blaen)
  - Treulio mwy o amser nag arfer yn yr ystafell ymolchi neu'r toiled oherwydd anawsterau troethi
  - Cael problemau rheolaidd gyda'r llwybr wrinol, mislif neu problemau ystumog
  - Osgoi ymarfer corff neu golli Addysg Gorfforol
  - Bod yn absennol o'r ysgol dro ar ôl tro, neu'n absennol am gyfnod hir
  - Dangos mwy o anghenion emosiynol a seicolegol – er enghraifft, tynnu'n ôl neu iselder, neu newid sylweddol mewn ymddygiad
  - Bod yn amharod i gael unrhyw archwiliadau meddygol
  - Gofyn am help, ond heb fod yn glir am y broblem
  - Siarad am boen neu anghysur rhwng ei choesau

Mae arwyddion posibl y gallai disgybl fod mewn perygl o enwaedu benywod yn cynnwys:

- Hanes o enwaedu benywod yn nheulu'r ferch (dyma'r ffactor risg mwyaf i'w ystyried)
- Enwaedu benywod yn hysbys i ddigwydd yng nghymuned neu wlad enedigol y ferch
- Rhiant neu aelod o'r teulu yn mynegi pryder y gallai enwaedu benywod ddigwydd
- Teulu'n methu ag ymgysylltu gyda gweithwyr proffesiynol (iechyd, addysg neu arall) neu eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn perthynas â materion diogelu eraill
- **Merch:**
  - Gyda mam, chwaer hŷn neu gyfnither sydd wedi bod yn destun i enwaedu benywod
  - Lefel gyfyngedig o integreiddio o fewn cymdeithas y DU
  - Yn cyfaddef i weithiwr proffesiynol ei bod hi am gael "triniaeth arbennig" neu fynychu digwyddiad arbennig i "ddod yn fenyw"
  - Yn siarad am wyliau hir i'w gwlad enedigol neu wlad arall lle mae'r arfer yn gyffredin, neu rieni'n dweud y byddan nhw neu berthynas yn mynd â'r ferch allan o'r wlad am gyfnod hir
  - Yn gofyn am gymorth gan athro neu oedolyn arall oherwydd ei bod yn ymwybodol neu'n amau ei bod mewn perygl uniongyrchol o enwaedu benywod
  - Yn siarad am enwaedu benywod mewn sgwrs – er enghraifft, gall merch ddweud wrth blant eraill amdano (er ei bod yn bwysig ystyried cyd-destun y drafodaeth)
  - Yn absennol o'r ysgol yn annisgwyl
  - Adrannau ar goll o'i 'llyfr coch' (cofnod iechyd plant) a/neu fynychu clinig teithio neu gyfwerth ar gyfer brechiadau/meddyginiaeth gwrth-falaria

Ni fwriedir i'r dangosyddion a'r ffactorau risg uchod fod yn hollgynhwysol.

**Nid yw cydymffurfio â'r ddyletswydd yn torri unrhyw ofyniad cyfrinachedd na chyfyngiad arall ar ddatgelu a allai fod yn berthnasol fel arall.**

**Mae'r ddyletswydd yn un bersonol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr proffesiynol unigol sy'n dod yn ymwybodol o'r achos i wneud adroddiad; ni ellir trosglwyddo'r cyfrifoldeb.** Yr unig eithriad i hyn yw os ydych yn gwybod bod unigolyn arall o'ch proffesiwn eisoes wedi gwneud adroddiad; nid yw'n ofynnol gwneud ail adroddiad.

Nid yw'r ddyletswydd yn berthnasol mewn perthynas â risg neu achosion tybiedig lle bo'r fenyw dros 18 oed. Yn yr achosion hyn, dylech ddilyn gweithdrefnau diogelu lleol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y fersiwn Cymraeg neu Saesneg o Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant fel y bo'n briodol, a/neu'r canllawiau amlasiantaethol ar enwaedu benywod.

**Os oes risg i fywyd neu debygolrwydd o niwed difrifol, dylai gweithwyr proffesiynol hysbysu'r heddlu am yr achos ar unwaith, gan gynnwys deialu 999 os yw'n briodol.)**

## 1.2 Llunio adroddiad ynghylch enwaedu benywod neu amheuaeth o enwaedu benywod

Argymhellir eich bod yn gwneud adroddiad ar lafar drwy ffonio 101, y rhif ar gyfer achlysuron nad ydynt yn argyfwng. Pan fyddwch yn ffonio 101, bydd y system yn pennu eich lleoliad ac yn eich rhoi mewn cysylltiad â'r heddlu ar gyfer yr ardal honno. Byddwch yn clywed neges wedi'i recordio yn enwi'r heddlu yr ydych yn cysylltu â nhw. Yna byddwch yn cael dewis gyda pha heddlu yr hoffech gysylltu - os ydych chi'n ffonio i adrodd am ddigwyddiad y tu allan i ardal yr heddlu yr ydych chi'n ffonio ohoni, gallwch ofyn i gael eich cysylltu gyda heddlu'r ardal honno. Atebir galwadau i 101 gan swyddogion heddlu a staff hyfforddedig yn ystafell reoli'r heddlu lleol. Bydd y sawl sy'n ateb yr alwad yn cofnodi'r sgwrs ac yn ei gyfeirio at y tîm perthnasol o fewn yr heddlu, a fydd yn gallu cysylltu'n ôl gyda chi i ofyn am fanylion pellach neu i drafod yr achos yn fanylach.

Dylech fod yn barod i roi'r wybodaeth ganlynol i'r sawl sy'n ymdrin â galwadau ar ôl egluro eich bod yn llunio adroddiad o dan y ddyletswydd adrodd gorfodol ar enwaedu benywod

### 1) Eich manylion:

- enw
- manylion cyswllt (rhif ffôn gwaith a chyfeiriad e-bost) ac adegau pan fyddwch chi ar gael i dderbyn galwad yn ôl
- rôl
- man Gwaith

### 2) Manylion Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad:

- enw
- manylion cyswllt (rhif ffôn gwaith a chyfeiriad e-bost)
- man gwaith

### 3) Manylion y ferch:

- enw
- oedran/dyddiad geni
- cyfeiriad

Byddwch yn cael cyfeirnod ar gyfer yr alwad a dylech sicrhau eich bod yn cadw cofnod o'r cyfeirnod hwn yn eich cofnodion.

Ceir rhagor o wybodaeth a gweithdrefnau ar gyfer unrhyw bryderon ynghylch enwaedu benywod mewn polisi ar wahân. Mae'r polisi'n amlinellu beth i'w wneud pan fydd pryderon ynghylch enwaedu benywod a gwybodaeth i helpu i godi ymwybyddiaeth o enwaedu benywod.

# Atodiad 2

## Adroddiad Datgelu Diogelu

<b>Enw'r aelod o staff</b>	
<b>Rôl aelod o staff</b>	
<b>Enw'r plentyn (os yw'n hysbys)</b>	
<b>Rhyw'r plentyn (os yw'n hysbys)</b>	
<b>Ethnigrwydd y plentyn (os yw'n hysbys)</b>	
<b>Enw'r Ysgol</b>	
<b>Cyswllt yn yr Ysgol</b>	
<b>Manylion cyswllt yr uchod (ffôn ac e-bost)</b>	
<b>Dyddiad ac amser datgelu neu arsylwi</b>	
<b>Enwau'r bobl a fu'n bresennol yn ystod y datgeliad</b>	
<b>Arsylwad</b> (peidiwch â dehongli'r hyn a arsylwyd, a lle bo'n bosibl, defnyddiwch eiriau'r plentyn ei hun)	

# Atodiad 3

## Protocol Ymddygiad, Iaith a Gwisg

### Pwrpas

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'n Polisi Diogelu. Ei ddiben yw nodi arfer gorau wrth hwyluso sesiynau Rhoi Cyntaf mewn ysgolion a helpu pob aelod o staff First Give i ddiogelu rhag honiadau o amhriodoldeb gan blentyn, person ifanc neu athro.

Dylai staff bob amser ofalu peidio â rhoi eu hunain mewn sefyllfa fregus gyda phlentyn.

### Ymddygiad

- Lle bynnag y bo modd, ni ddylai staff fyth fod ar eu pennau eu hunain gyda grŵp o fyfyrwyr. Dylid sicrhau bod athro yn yr ystafell bob amser.
- Dim ond drwy gynrychiolydd o'u hysgol y dylid cysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc neu blant. Ni ddylai'r staff roi manylion cyswllt uniongyrchol y plentyn neu'r person ifanc ar unrhyw adeg. Ni ddylai staff, o dan unrhyw amgylchiadau, gysylltu â pherson ifanc ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol personol (mae hyn yn cynnwys derbyn ceisiadau ffrind ar Facebook, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny).
- Yn unol â'r Polisi Diogelu, mae First Give yn gweithredu dull "dim cyffwrdd". Mae'n hawdd camddechongli braich o amgylch yr ysgwydd neu gyffyrddiad ar y cefn. Os bydd aelod o staff yn ceisio dangos rhywbeth penodol yn ymwneud ag iaith y corff, dylai ddefnyddio ei gorff ei hun i ddangos ei argymhellion.
- Os bydd aelod o staff First Give yn teimlo nad oes modd osgoi cyswllt corfforol (er enghraifft i gysuro plentyn gofidus, sâl neu anabl), dylid ystyried y canlynol:
  - Sicrhau bod aelod arall o staff neu oedolyn cyfrifol yn yr ystafell;
  - Dim ond gyda chydysyniad y plentyn y dylid cyffwrdd ag ef/hi'n gorfforol;
  - Rhaid i ddiben unrhyw gyswllt corfforol fod yn glir.

### Iaith

- Ni ddylai staff First Give ddefnyddio iaith anwedus neu ormesol o ran hil, diwylliant, oedran, rhyw, anabledd, crefydd, rhywioldeb neu gred wleidyddol.
- Cynghorir staff First Give yn gryf i beidio â gwneud unrhyw sylwadau'n ymwneud â rhyw neu edrychiad corfforol.
- Cynghorir staff First Give i ddefnyddio enwau cyntaf y plant a'r bobl ifanc yn unig, ac i beidio â defnyddio geiriau cyffredinol amhenodol fel "Cariad", "Cyw" ayb... a allai gael eu camddechongli'n ddiweddarach.

### Gwisg

- Mae First Give yn hyrwyddo datblygiad yr hunan proffesiynol, ac mae proffesiynoldeb yn elfen allweddol o'n hunaniaeth brand. O'r herwydd, bydd holl staff First Give yn edrych yn broffesiynol bob amser. Dylai dillad fod yn daclus. Dylid osgoi jîns, esgidiau ymarfer, crysau-t ac unrhyw eitemau o ddillad sy'n dangos gormod o'r corff.

## Atodiad 4

### Ffurflen ganiatâd ar gyfer recordio fideo/delweddau o blant

#### Defnydd

Hoffem dynnu lluniau/fideos o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n rhan o'r rhaglen First Give yn yr ysgol.

Gallai'r lluniau/ffilmiau gael eu defnyddio ar gyfer cynrychiadau y byddwn ni'n eu comisiynu/adnoddau addysg sy'n gysylltiedig â'n gwaith. Gallai'r lluniau hefyd gael eu defnyddio ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwefan First Give a'n harianwyr, neu eu rhyddhau i'w cyhoeddi neu eu darlledu yn y cyfryngau er mwyn hyrwyddo straeon cadarnhaol am bobl ifanc a gwaith First Give.

Cyn recordio delweddau o'ch plentyn, mae angen eich caniatâd arnom. Os yw eich plentyn yn 13 oed neu'n hŷn, mae angen ei ganiatâd arnom hefyd. Atebwch y cwestiynau isod, llenwch y manylion ac yna llofnodwch y ffurflen a rhowch ddyddiad arni.

Byddwn yn sicrhau y bydd eich data a delweddau eich plentyn yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â'n polisi data. Os hoffech dynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, cysylltwch â First Give trwy e-bostio [info@firstgive.co.uk](mailto:info@firstgive.co.uk) gyda'ch manylion.

#### Caniatâd

A allwn ddefnyddio delwedd eich plentyn (gan gynnwys lluniau fideo) yn y ffyrdd a ddisgrifir uchod?

#### Rhowch gylch

Gallwch / Na allwch

#### Manylion

Enw'r oedolyn sy'n rhoi caniatâd

---

Enw'r plentyn/plant

---

Ysgol y mae'r plentyn/plant yn ei mynychu

---

Llofnod yr oedolyn sy'n rhoi caniatâd

---

Llofnod y plentyn (os yw'n 13 oed neu'n hŷn)

---

Dyddiad

---

*Mae'r ffurflen hon yn ddilys am bedair blynedd ar ôl y dyddiad llofnodi. Bydd First Give yn ceisio caniatâd o'r newydd os yw'r delweddau i gael eu haildefnyddio ar ôl yr amser hwn*

Cadwch gopi o'n manylion cyswllt trwy dorri'r slip hwn oddi ar y ffurflen.

[info@firstgive.co.uk](mailto:info@firstgive.co.uk)

0207 443 5169

## Atodiad 5

### Recriwtio mwy diogel a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – polisi a gweithdrefnau

#### Penodi staff newydd

Wrth benodi staff newydd, byddwn yn:

- Gwirio eu hunaniaeth
- Derbyn (gan yr ymgeisydd) tystysgrif fanwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), gan gynnwys gwybodaeth am restrau gwaharddedig ar gyfer y rhai a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir (gweler y diffiniad isod). Ni fyddwn yn cadw copi o hyn am fwy na 6 mis
- Cael gwiriad rhestr wahardd ar wahân os bydd ef/hi yn dechrau gweithio mewn gweithgaredd a reoleiddir cyn bod tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael
- Gwirio addasrwydd meddyliol a chorfforol yr ymgeisydd i gyflawni cyfrifoldebau gwaith
- Dilysu ei hawl i weithio yn y DU. Byddwn yn cadw copi o'r gwiriad hwn drwy gydol cyflogaeth yr aelod o staff ac am 2 flynedd wedyn
- Dilysu eu cymwysterau proffesiynol, fel y bo'n briodol
- Cynnal gwiriadau ychwanegol pellach, fel y bo'n briodol, ar ymgeiswyr sydd wedi byw neu weithio y tu allan i'r DU, gan gynnwys (lle bo'n berthnasol) unrhyw gosbau neu gyfyngiadau athrawon a osodwyd gan awdurdod rheoleiddio proffesiynol Ardal Economaidd Ewropeaidd, a gwiriadau cofnodion troseddol neu gyfwerth
- Gofyn am wybodaeth ysgrifenedig am hanes cyflogaeth flaenorol a gwirio nad yw gwybodaeth yn anghyson nac yn anghyflawn

Byddwn yn gofyn am eirfaon ar bob ymgeisydd ar y rhestr fer, gan gynnwys ymgeiswyr mewnol, pan fyddwn yn cynnig swydd. Byddwn yn edrych yn fanwl ar y rhain ac yn datrys unrhyw bryderon cyn cadarnhau penodiadau.

Byddwn yn sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal i sicrhau nad yw unigolion yn cael eu hanghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Gofal Plant (Rheoliadau) 2009 a Gofal Plant 2006. Pan fyddwn yn penderfynu bod unigolyn y tu allan i gwmpas y rheoliadau hyn ac nad ydym yn cynnal gwiriadau o'r fath, byddwn yn cadw cofnod o'n hasesiad ar ffeil bersonél yr unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys ein gwerthusiad o unrhyw risgiau a mesurau rheoli a roddwyd ar waith, ac unrhyw gyngor a geisiwyd.

Mae gweithgarwch a reoleiddir yn golygu person a fydd:

- Yn gyfrifol am addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am blant neu eu goruchwylio'n rheolaidd mewn ysgol neu goleg
- Yn cyflawni gwaith cyflogedig neu ddi-dâl heb oruchwyliaeth mewn ysgol neu goleg lle bo'r gwaith hwnnw'n rhoi cyfle i gysylltu gyda phlant.
- Yn darparu gofal personol neu weithgaredd dros nos, hyd yn oed os bydd hyn yn digwydd unwaith yn unig, a p'un a ydynt yn cael eu goruchwylio ai peidio



## Staff presennol

Os oes gennym bryderon am addasrwydd aelod presennol o staff i weithio gyda phlant, byddwn yn cynnal yr holl wiriadau perthnasol fel pe bai'r unigolyn yn aelod newydd o staff. Byddwn hefyd yn gwneud hyn os bydd unigolyn yn symud o swydd nad yw'n weithgaredd a reoleiddir i weithgaredd o'r fath.

Byddwn yn cyfeirio unrhyw un sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, neu sy'n peri risg o niwed at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

- Pan fo'r 'prawf niwed' yn cael ei fodloni mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw (h.y. nad oes unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu wedi digwydd, ond bod y risg bresennol y gallai fod wedi digwydd yn sylweddol)
- Pan fo'r unigolyn wedi cael rhybudd neu gollfarn am drosedd berthnasol
- Os oes rheswm dros gredu bod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd berthnasol restredig, o dan Reoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006 (Meini Prawf Rhagnodedig a Darpariaethau Amrywiol) 2009
- Os yw'r unigolyn wedi'i symud o weithio mewn gweithgaredd rheoledig (cyflogedig neu'n ddi-dâl) neu y byddai wedi cael ei symud pe na bai wedi gadael

## Gwirfoddolwyr

Ni fyddwn:

- Yn gadael gwirfoddolwr nad yw wedi'i wirio heb oruchwyliaeth, na chaniatáu iddo ef/hi weithio mewn gweithgaredd rheoledig